Adroddiad Ariannol Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Cefndir statudol
Sefydlwyd 'Amgueddfa Genedlaethol Cymru' (yr Amgueddfa) drwy Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel corff cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn. Fodd bynnag, yn 2005/06, newidiodd yr Amgueddfa ei enw cyhoeddus o Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i 'Amgueddfa Cymru'.

Mae'n elusen gofrestredig annibynnol, ac yn cael ei hariannu'n bennaf drwy gymhorthdal grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC).

Ei hamcan craidd yw '*hyrwyddo addysg y cyhoedd'.* Mae hyn yn golygu datblygu casgliadau cenedlaethol Cymru, gofalu amdanynt, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl eu mwynhau er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (a ddiwygiwyd yn 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

(i) yn bennaf, drwy ddarlunio'n llwyr wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, a

(ii) yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwella dealltwriaeth a hybu ymchwil.

Nodau ac amcanion

Gweledigaeth Amgueddfa Cymru yw bod yn **amgueddfa ddysg o safon ryngwladol.** Ein nodau yw:

- creu amgueddfeydd byw lle mae'r casgliadau'n adrodd eu straeon mewn ffordd gliriach, â'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol
- datblygu casgliadau llewyrchus sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac sy'n tyfu
- canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, er mwyn creu mynediad cyfartal i'r casgliadau
- dysgu trwy rannu ein cynlluniau a'n dulliau o weithio ag ymwelwyr, er mwyn creu ffyrdd ystyrlon i'r amrywiaeth o bobloedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru ddefnyddio'r casgliadau
- tyfu trwy ddysgu, wrth blannu a dathlu sgiliau dysgu wrth galon ein holl waith
- cyfathrebu fel y daw Amgueddfa Cymru'n adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysg o safon ryngwladol a chodi proffil casgliadau lleol a sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu gweld trwy ein gwaith gyda'n sefydliadau partner
- adeiladu ar ein hadnoddau er mwyn creu sail gadarn a chryf i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a'r tu hwnt.

Drwy ddefnyddio'r blaenoriaethau hyn gallwn wireddu ein Gweledigaeth yn ogystal â chefnogi gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i disgrifir yn y ddogfen *Cymru: Gwlad Well.*

Newidiadau i'r trefniadau llywodraethu – Y Llys, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Rheoli
Ar 19 Medi 2006, rhoddwyd Siarter Brenhinol a Statudau atodol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sy'n elusen gofrestredig (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Newidiodd y Siarter newydd drefniadau Llywodraethu'r Amgueddfa i adlewyrchu Gweledigaeth yr Amgueddfa ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, fel 'amgueddfa ddysg o safon ryngwladol' a'r argymhellion a wnaed mewn adolygiad pum mlynedd cynharach a gyflawnwyd ar gwis Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn rhan o'r broses, cytunodd Llys y Llywodraethwyr i gael ei ddiddymu a sefydlu yn ei le, gynllun o ymgynghoriadau cyhoeddus cyson a'i budd-ddeiliaid sydd â diddordeb yn natblygiad creiriau'r Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa'n ymdrechu hefyd i ddod o hyd i bobl gymwys sy'n fodlon darparu cymorth a chyngor ym mhob un o'i meysydd gwaith.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (y Cyngor gynt) yw'r awdurdod gweithredol o hyd, a'r Bwrdd sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo'r Amgueddfa, sef yr holl arian a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru neu o ffynonellau eraill, a'r holl diroedd, adeiladau, neu roddion mewn da a roddir ar ran y sefydliad. Mae'r Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cwrdd yn gyhoeddus yn gyson, er mwyn trafod ei fusnes.

Penodir aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gan yr Amgueddfa, mewn niferoedd a bennir o fewn y Siarter. Gweithredir egwyddorion penodi agored ar gyfer pob penodiad, yn ôl argymhellion Adolygiad Nolan. Sefydlwyd is-bwyllgor Penodiadau i gynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob person newydd a benodir yn dilyn rhaglen gyflwyno ac yn derbyn llawlyfr cynhwysfawr yn
fuan ar ôl eu penodiad. Nid yw'r Amgueddfa'n talu unrhyw aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwr am ei wasanaeth.

Mae manylion aelodau'r Llys (tan 19 Medi 2006) a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a enwebwyd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymddiswyddo, ymddeol ac wedi ymuno, mewn atodiad i'r adroddiad hwn. Cedwir manylion unrhyw gwmnïau y maent yn gyfarwyddwyr arnynt a buddiannau sylweddol eraill mewn Cofrestr Buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn dirprwyo awdurdod i amrywiol is-bwyllgorau, yn bennaf y Pwyllgor
Adolygu Perfformiad, sydd â chylch gwaith eang i fonitro materion gweithredol; y Pwyllgor Archwilio, sydd â Chadeirydd annibynnol a thri aelod annibynnol arall, gan gynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru; a Bwrdd yr is-gwmni sy'n cyfarwyddo gweithgareddau masnachol yr Amgueddfa. Mae'r pwyllgorau hyn yn cwrdd bob chwarter.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n delio â materion gweithredol bob dydd, ac mae eu manylion hwythau hefyd mewn atodiad i'r adroddiad hwn. Penodir pob aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr drwy gystadleuaeth agored ac fe'u cyflogir o dan Amodau a Thelerau Cyflogaeth safonol yr Amgueddfa, sy'n berthnasol i'r holl staff, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a benodir dan delerau a gytunwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae trefniadau llywodraethu'r Amgueddfa'n cydymffurfio'n llwyr â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol a gyhoeddwyd gan Ganolfan Llywodraethu Genedlaethol Lloegr ac maent wedi'u cymeradwyo'n llwyr gan y Comisiwn Elusennau.

Safleoedd Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2006/07, roedd yr Amgueddfa yn gweithredu amgueddfeydd mewn saith lleoliad ledled Cymru, sef:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd
Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd
Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd
Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Hefyd mae Canolfan Gasgliadau Cymru yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy'n agored i'r cyhoedd os gwneir apwyntiad. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae gennym drefniadau partneriaeth gyda sefydliadau lleol i reoli dau safle arall sef Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon, Oriel Tŷ Turner, Penarth a chyfleuster newydd sy'n cael ei adeiladu yn Nhyddewi.

Dathlodd yr Amgueddfa nifer o orchestion pwysig ar ei safleoedd yn 2006/07, gan gynnwys:

Oriel 1, Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
Ddydd Sadwrn, 31 Mawrth 2007, agorodd Amgueddfa Cymru oriel newydd sbon yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Noddir Oriel 1 gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality ac mae'n defnyddio creiriau, ffotograffau, ffilm, celf, straeon a phrofiadau personol i ddangos beth yw ystyr Cymreictod a byw yng Nghymru heddiw.

Mae'r Oriel yn edrych ar thema Perthyn, gan ddangos bod sawl ffordd o berthyn i'n gwlad. Fel un o brojectau canmlwyddiant mawr Amgueddfa Cymru, mae Oriel 1 yn denu ymwelwyr o Gymru a'r tu hwnt i chwarae eu

rhan a rhannu eu safbwyntiau am y ffordd y mae'r ieithoedd y maent yn eu siarad, eu teuluoedd a'u ffrindiau, eu gwreiddiau a'u credoau'n effeithio ar bwy ydyn nhw.

Arddangosfeydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Taniodd *Wynebau Cymru* a *Marwolaeth yng Nghymru: 4000-3000 CC* – dwy arddangosfa wahanol iawn yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd – ddychymyg miloedd o ymwelwyr yn haf 2006.

Roedd *Wynebau Cymru* yn cyflwyno portreadau o bobl sydd wedi cyfrannu at fywyd diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd Cymru dros y 400 mlynedd diwethaf. Dangoswyd gwaith artistiaid mor amrywiol â Gainsborough, Johann Zoffany, Augustus John a David Hurn. Roedd y bobl a bortreadwyd yn amrywio o Catrin o Ferain a Dylan Thomas i Tanni Grey-Thompson.

Mewn cyferbyniad llwyr, cyflwynodd *Marwolaeth yng Nghymru: 4000-3000 CC* y chwyldro a ddigwyddodd yng Nghymru dros 6,000 o flynyddoedd yn ôl, pan drefnwyd cerrig anferth yn dai i'r meirw. Roedd yr arddangosfa'n nodedig am ymdrin â'r pwnc sensitif hwn â pharch ac urddas. Roedd yr arddangosfa'n rhan o'r gwaith o hyrwyddo'r llyfr *Cromlechi Cymru* (gweler tud. xx).

Cafwyd rhaglen doreithiog o ddigwyddiadau dros y gwanwyn a'r haf fel rhan o'r Ŵyl Ddiwylliannau Moslemaidd, a ddaeth i benllanw gyda dwy arddangosfa arloesol.

Arddangosfa deithiol unigryw oedd *1001 o Ddyfeisiadau: Darganfod Treftadaeth Foslemaidd ein Byd.* Datgelodd 1,000 o flynyddoedd o dreftadaeth wyddonol a thechnolegol doreithiog. Bu arddangosfa arall, *Y Byd Moslemaidd ar Stepen y Drws,* yn ymchwilio i sut y mae'r byd Moslemaidd a'i hanes cymhleth ac amrywiol yn cael ei gynrychioli yn ein bywydau bob dydd. Er bod ganddynt themâu gwahanol, roedd y ddwy arddangosfa'n synnu, yn herio ac yn sbarduno ein hymwelwyr.

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Yn 2006/07, sef ei blwyddyn lawn gyntaf, denodd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau 256,287 o ymweliadau, yn erbyn targed o 200,000. Daeth ymwelwyr yn llu i archwilio straeon y bobl fu'n arloesi yn niwydiant Cymru dros y 300 mlynedd diwethaf mewn cyfres o 15 arddangosfa thematig.

Gweithio mewn partneriaeth

Dros y flwyddyn bu Amgueddfa Cymru'n gweithio mewn partneriaeth ag amryw o gyrff eraill ledled Cymru. Dim ond dau o'r partneriaethau a amlinellir yma. O ran *Cyfoeth Cymru Gyfan*, roedd arddangosfa *Dinosoriaid yn eich gardd* yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn cyfuno asesiad manwl o gasgliadau daearegol Amgueddfa Sir Gaerfyrddin ag arddangosfa newydd ddeniadol mewn orielau newydd a ffres. Agorwyd yr Oriel Crochenwaith Japan ar ei newydd wedd yn Amgueddfa Pont-y-pŵl ym Mehefin 2006, gyda chymorth staff addysg Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru. Mae gwaith wedi dechrau gyda phartneriaid newydd y cynllun ar gyfer 2006/08, sef Amgueddfa Plasty Scolton yn Sir Benfro, Amgueddfa'r Fenni ac Amgueddfa Llandudno.

Mae *Celf Cymru Gyfan* wedi creu projectau celf gyda phum lleoliad peilot ledled Cymru. Fe'i gwnaed yn bosibl diolch i gymorth Sefydliad Esmeé Fairbairn. Agorodd *Gweledigaethau Radical: Celf Brydeinig 1910-1950* yn Oriel Davies yn y Drenewydd yng ngwanwyn 2006 a gwelwyd cynnydd o 55% yn nifer yr ymwelwyr. Parhaodd Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe â'r gyfres o arddangosfeydd 'Yn y Golwg', gan ddangos gweithiau Alfred Sisley a Terry Setch.

Fformat y cyfrifon

Caiff y cyfrifon eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Gyfeireb Cyfrifon ar gael oddi wrth Gyfarwyddwr Cyllid yr Amgueddfa. Mae cyfrifon yr Amgueddfa yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2005) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau'.

Wedi'u hymgorffori i'r ffigurau cyfunol mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa sef, Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu'r Amgueddfa. Hefyd wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Amgueddfa mae ei chyfran

o 50% o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf., menter ar y cyd gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe, gyda'i brif bwrpas o ddatblygu'r amgueddfa newydd yn Abertawe.

Gellir cael manylion pellach am holl weithgareddau'r Amgueddfa a ddisgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol yn Adroddiad Blynyddol yr Amgueddfa.

Canlyniadau ariannol y flwyddyn
Daeth gwerth £2,723,000 o adnoddau cyfunol net i mewn i'r Amgueddfa cyn costau enwol (£4,419,000 yn 2005/06). Daeth cyfanswm o £29,685,000 o adnoddau i mewn i'r Amgueddfa (£29,365,000 yn 2005/06) a gwariwyd cyfanswm o £26,696,000 (£26,720,000 yn 2005/06).
Y cynnydd net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl cymryd yr holl enillion a cholledion wedi, a heb eu gwireddu i ystyriaeth oedd £1,391,000 (lleihad net o £8,805,000 yn 2005/06).
£92,671,000 oedd balans y gronfa ar 31 Mawrth 2007 (£91,280,000 ar 31 Mawrth 2006).
Cofnododd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. elw o £255,000 cyn cymorth rhoddion i'r Amgueddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2006/07 (£277,000 yn 2005/06).

Rheoli risg
Mae Bwrdd, Pwyllgorau a Chyfarwyddwyr yr Amgueddfa yn ystyried y prif beryglon strategol, busnes a gweithredol y mae'r Amgueddfa'n ei wynebu yn gyson, ac maent wedi sefydlu Gweithgor Rheoli Risg er mwyn sicrhau bod peryglon yn cael eu hadolygu a'u hadrodd ar draws y sefydliad i gyd, a bod mesurau lliniaru cadarnhaol perthnasol yn eu lle. Mae'r systemau hyn wedi bod yn eu lle ers nifer o flynyddoedd ac maent yn parhau i fod yn hollol weithredol yn unol â'r arferion gorau. Mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn goruchwylio gwaith y Gweithgor Rheoli Risg. Hefyd, adolygir pob perygl yn flynyddol fel rhan annatod o'r broses gynllunio gweithredol, er mwyn bwydo'r cynllun archwilio mewnol.

Dangosyddion perfformiad
Yn 2006/07, comisiynodd yr Amgueddfa adolygiad o'n dulliau o werthuso ein gwaith a'n gweithgareddau ar bob lefel. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr adolygiad yn Ionawr 2007 a chaiff ei ddatblygu gan ddilyn cynllun gweithredu cymeradwy yn 2007/08. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn ni'n parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau meintiol ac ansoddol a bennwyd, a bydd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa, yr Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu cynnydd bob chwarter. Byddwn ni'n ymdrechu i symud draw i'r fframwaith gwerthuso/mesur perfformiad newydd yn 2008/09.

Cafwyd cyfanswm o 1,534,727 o ymweliadau i'n safleoedd yn ystod 2006/07, a hynny'n erbyn targed o 1,450,000. Cafwyd 1,637,517 o ymweliadau â gwefan yr Amgueddfa, oedd eto'n uwch na'r targed o 1,500,000, sy'n brawf o'r twf parhaus yn nifer ein hymwelwyr a defnyddwyr eraill sy'n dewis cyrchu gwybodaeth am ein gwaith dros y we.

Wrth i ni ddogfennu ein holl gasgliadau yn ôl canllawiau'r Cymdeithas Ddogfennu mewn Amgueddfeydd, rydyn ni wedi dal ati i osod yr holl gofnodion am gasgliadau ar gyfrifiadur, gyda'r nod o sicrhau lefelau derbyniol o gofnodion cyfrifiadurol ar gyfer y gwrthrychau yng nghasgliadau'r Amgueddfa. Yn 2006/07, ac ar sail casgliad o 4,700,000 o eitemau, fe lwyddon ni i greu cofnodion cyfrifiadurol ar lefel rhestr eiddo, sy'n ein galluogi ni i adnabod eitem yn gywir ac yn gyflym a nodi ei leoliad, ar gyfer 51.7% o'r casgliadau, yn erbyn targed o 50%. Llwyddwyd i greu cofnodion lefel catalog, sy'n cynnwys data academaidd a chyfeirnodau cyhoeddiadau, ar gyfer 27.9% o'r casgliadau, yn erbyn targed o 27%.

Roedd nifer y projectau ymchwil (126) a nifer y lleoliadau y benthycwyd eitemau iddynt (367) yn ystod y flwyddyn ill dau yn uwch na'r targedau, gan ddangos bod gwaith da yn cael ei wneud wrth ledaenu'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r casgliadau.

Buddsoddiadau cyfalaf ac asedau sefydlog
Yn 2006/07, parhawyd â'r cynnydd ar Broject aml-safle'r Amgueddfa o ran Gofal a Mynediad at y Casgliadau, gyda gwariant o ryw £1.6m, a gododd cyfanswm y gwariant i £3.2m, o gyfanswm cost y project o £4.4m. Gwariwyd £2.9m arall yn ystod ail flwyddyn rhaglen bwysig pedair blynedd o hyd o waith cynnal a chadw'r ystâd ac eitemau cyfalaf eraill, a fydd yn parhau dros y ddwy flynedd nesaf, ac sydd wedi'i gynnal gan grant cyfalaf o £3m oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r gwaith yn rhan o brif
Gynllun Cyfalaf sydd nid yn unig yn cwmpasu'r gwaith cynnal a chadw hanfodol sydd ei angen

yn safleoedd yr Amgueddfa, ond a fydd hefyd yn darparu cynnydd yn y lle sydd ar gael mewn orielau a helpu i ail-ddiffinio safleoedd yr Amgueddfa yn unol gyda'i Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Darperir manylion pellach am y prif Gynllun Cyfalaf yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Yn unol â pholisïau cyfrifo'r Amgueddfa, adbrisiwyd asedau yn broffesiynol y llynedd, wedi cael eu hadbrisio gan ddefnyddio'r mynegai yn unol ag anghenion Trysorlys Ei Mawrhydi. Byddwn yn parhau i adbrisio ar sail y mynegai yn parhau tan yr adbrisio proffesiynol nesaf ymhen 4 blynedd.

Yr unig asedau na chafodd ei hadbrisio yn ôl y mynegai oedd yr asedau TG, oherwydd y gostyngiad Cyffredinol mewn prisiau asedau TG dros amser, a'r asedau treftadaeth. Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu
cofnodi ar bris cost. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod costau prisio asedau treftadaeth yn rhwystr. Ond mae'r Amgueddfa wedi nodi'r ddogfen drafod ddiweddar ar brisio asedau treftadaeth a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, a bydd yn adolygu ei pholisi.

Caffael sbesimenau
Mae nifer yr eitemau pwysig a gafwyd yn isel o hyd oherwydd natur ddisymud y gronfa caffael sbesimenau
o'i gymharu â chwyddiant y farchnad celf a chreiriau. Fodd bynnag, ymysg caffaeliadau mawr 2006/07 roedd:

- Peintiad gan yr artist cyfoes Peter Blake, *Kamikaze,* a brynwyd am £215,000, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams (£120,000) a'r Gronfa Gelf (£40,000).

- Prynwyd peintiad gan Edward Lear, *Kinchinjunga o Darjeeling*, am £300,000, gyda chymorth y Gronfa Gelf (£150,000) ac eraill. Roedd Lear yn arlunydd pwysig yn ogystal â bod yn awdur. Roedd y gwaith hwn ymysg y pwysicaf o'i 300 fwy neu lai o beintiadau olew, ac mae'r llun wedi aros yng Nghymru ers gadael ei stiwdio ym 1877.

Daeth eitemau pwysig eraill i feddiant ar ffurf rhoddion, cymynroddion trwy waith maes a thrwy waith cloddio. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfraniad yn lle'r dreth etifeddu o grŵp pwysig o ddarnau porslen Abertawe a Chaerwrangon, o gasgliad Dr John a Mrs Sheila Gibbs.

- Dau gasgliad pwysig o folysgiaid (cregyn) o gasgliad y diweddar Ted Phorson a David Keen.

- Gweithiau o gasgliad personol y diweddar Syr Kyffin Williams RA.

- Tua 500 o ficroffosilau o greiddiau sediment yn Nhanzania, a gyflwynwyd gan yr Athro Paul Pearson o Brifysgol Caerdydd. Mae'r casgliad yn cynnwys o leiaf 56 rhywogaeth newydd a bydd yn helpu i fwrw goleuni newydd ar ein gwaith ar newid yn yr hinsawdd trwy hanes.

- Crochenwaith, metel ac esgyrn anifeiliaid, crochenwaith Rhufeinig a gwaith metel o waith cloddio'r Amgueddfa yn Llanfaes, Bro Morgannwg, a gyflwynwyd gan berchennog y tir, Mr D W Thomas.

- Casgliad o arteffactau Paul Robeson, gan gynnwys gwrthrychau gwreiddiol a ffotograffau.

Ceir manylion yr holl asedau treftadaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn nodyn 10 i'r cyfrifon.

Codi arian a gwirfoddolwyr
Cafodd Adran Ddatblygu'r Amgueddfa gwerth £409,000 o incwm ac addunedau yn ystod y flwyddyn, a hynny o amryw o ffynonellau cyhoeddus, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, cwmnïau ac unigolion. At hynny, cafwyd nifer o grantiau mawr, gwerth dros £500,000 i gyd, ar ddiwedd y flwyddyn.

Parhaodd Cyfeillion yr Amgueddfa i gefnogi ein gwaith mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, fel llysgenhadon dros waith yr Amgueddfa, gan ddarparu rhaglen o sgyrsiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n ategu gweithgareddau addysgol yr Amgueddfa ei hun.

Yn ail, mae'r Cyfeillion yn darparu grŵp o wirfoddolwyr, sy'n cyfarfod a chyfarch grwpiau ac unigolion fel grwpiau Cyfeillion amgueddfeydd eraill ac ymwelwyr achlysurol sydd â diddordeb. Maen nhw hefyd yn

cynorthwyo'r staff curadurol. Mae'n bwysig nodi bod yr Amgueddfa'n gweld hyn fel ychwanegiad gwerthfawr yn hytrach na gwirfoddolwyr yn cyflawni ein gwaith craidd. Cawsom gyfanswm o wythdeg o ddiwrnodau o bresenoldeb gan y Cyfeillion fel gwirfoddolwyr ac o ganlyniad darparwyd teithiau tywys i ryw 811 o ymwelwyr.

Yn drydydd, mae'r Cyfeillion hefyd yn rhoi cymorth ariannol. Eleni rhoesant gyfraniadau hael tuag at fan addysg, grantiau ymchwil, datblygu Oriel 1 yn Sain Ffagan, arddangosfa arfaethedig *Gwreiddiau* ac ailddatblygu orielau adain ddwyreiniol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Mae'r Noddwyr yn dal i gynyddu'r cymorth amhrisiadwy a roddant trwy eu haelodaeth, a thrwy waith eiriolaeth wrth recriwtio cefnogwyr eraill i'r cynllun. Eleni lansiwyd Apêl Canmlwyddiant y Noddwyr, a'i nod yw denu rhyw £30,000 tuag at y gwaith y mae ei angen i gwblhau Eglwys Sant Teilo yn Sain Ffagan.

Mae'r Bwrdd Datblygu yn cynnwys nifer o unigolion sydd wedi cytuno i helpu i gyrraedd ein targedau codi arian. Yn ystod y flwyddyn cafodd y Bwrdd nifer o lwyddiannau mawr, gan gynnwys hwyluso grant gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality. Llwyddodd digwyddiad o bwys a gynhaliwyd yn Christie's yn Llundain i godi proffil yr Amgueddfa'n sylweddol yn ogystal â chodi rhyw £80,000 mewn arian ac addunedau. Rydym yn ddiolchgar am yr ymroddiad a gafwyd gan yr unigolion hyn, ac edrychwn ymlaen at weld mwy o ganlyniadau i'r gweithgarwch yma yn y blynyddoedd i ddod.

Perfformiadt brydlon
Mae'r Amgueddfa'n cefnogi amcanion cod ymarfer *Better Payment* Trysorlys ei Mawrhydi a'i nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod. Saith niwrnod oedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer talu anfonebau yn 2006/07 (9 diwrnod yn 2005/06), sy'n cynnwys 98% (yn ôl nifer) o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (95% yn 2005/06). Ni wnaed taliad llog dan Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion
Masnachol (Llog) 1998 (£14.27 yn 2004-05).

Y polisi ar gronfeydd cadw
Fel corff sy'n casglu a chynnal casgliadau er mwyn cyflawni ei nodau ac amcanion, mae'r polisi ar gronfeydd cadw a nodir yma yn berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig.

Mae'r polisi hwn ar hyn o bryd yn ddibynnol ar yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Natganiad Rheoli a Memorandwm Cyllid yr Amgueddfa sy'n cyfyngu'r cronfeydd cadw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i 2% o'i gyllideb, yn ychwanegol i'r gallu i gario drosodd, ond nid i dynnu i lawr oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, 3% arall o'r cymhorthdal grant blynyddol. Croesawyd yr hyblygrwydd cynyddol hwn o 2% o ddiwedd y flwyddyn ariannol 2004/05, fel cymorth i ddiddymu gwariant ariannol cyflymach ar ddiwedd blwyddyn ariannol, a gan ei
fod yn galluogi'r Amgueddfa i ddefnyddio balans diwedd y flwyddyn er mwyn esmwytháu addasiadau cyllideb o flwyddyn i flwyddyn, ac i gyfrannu at ddatblygiadau cyfalaf sydd yn croesi dyddiadau diwedd blwyddyn.

Yn anffodus, ar 14 Gorffennaf 2006, heb ymgynghori, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y câi'r hyblygrwydd hwn ei gwtogi'n ddifrifol ar gyfer pob CNLC ac y câi cronfeydd arian parod (ac eithrio Cronfeydd Preifat) eu cyfyngu i 2% o'r gyllideb, heb unrhyw hawl awtomatig i dynnu cymhorthdal grant na wariwyd i lawr oddi wrth y Cynulliad ar ddiwedd y flwyddyn.

Ysgrifennodd yr Amgueddfa at Lywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu sylw at yr effaith negyddol y gallai'r cyfyngiad hwn ei gael ar reolaeth ariannol gadarn, ac i ofyn am eglurhad o'r trefniadau mewn perthynas â'r Grant Prynu Sbesimenau, incwm a gynhyrchir yn fewnol, cyllid Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a phrojectau cyfalaf. Yn y meysydd hyn, roedd posibilrwydd y byddai'r trefniadau ariannu manwl yn amrywio oddi ar y cyfyngiadau newydd. Caniataodd Llywodraeth y Cynulliad rhai eithriadau a llacio yn y rheolau yn y meysydd hyn, er bod y gwendidau posibl a allai godi o gyfyngiad tynn ar gludo arian parod ymlaen yn parhau.

Cynhelir cronfeydd preifat ar wahân ac fe'u nodir yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn ar gludo'r rhain ymlaen, a pholisi'r Amgueddfa yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u defnyddio ar brojectau a chynlluniau cyfalaf nad ydynt yn derbyn cyllid craidd na chymhorthdal grant.

Caiff elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, ei ddefnyddio i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at nodau ac amcanion yr Amgueddfa. Ar adegau gall hyn olygu ail-fuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella'r canlyniadau masnachol ymhellach. Bydd y trefniadau i drosglwyddo'r elw i'r Amgueddfa hefyd yn rhoi sylw priodol i gadw goblygiadau treth y gwaith masnachu mor isel â phosibl.

Mae'r Amgueddfa wedi cychwyn ar gynllun tymor hir o ddatblygu cyfalaf ac adnewyddu, er mwyn cyfrannu at y datblygiadau hyn, mae'n hanfodol cadw'r hyblygrwydd mwyaf posibl wrth gadw cronfeydd, ar ffurf cludo arian ymlaen a chadw elw masnachol.

Cyfanswm Cronfeydd yr Amgueddfa ar 31 Mawrth 2007 oedd £92,671,000. Ceir dadansoddiad yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon Ariannol.

Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau
Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol, Gerrard Investment Management Ltd sy'n buddsoddi cronfeydd preifat yr Amgueddfa ar ei ran. Mae ganddynt agwedd ddarbodus o ran risgiau, a buddsoddir y cronfeydd mewn portffolio risg canolig ac mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn buddsoddiadau arian parod. Caiff perfformiad y cronfeydd hyn ei adolygu'n gyson. Cododd gwerth y portffolio yn ystod y flwyddyn o £1,961k i £2,092k a oedd yn uwch na'r meincnod.

Hefyd cadwodd yr Amgueddfa rodd fel buddsoddiad ecwiti mewn deg cwmni da. Cododd gwerth y portffolio hwn o £94k i £104k yn ystod y flwyddyn.

Rhwymedigaethau pensiwn
Mae gan yr Amgueddfa gynllun pensiwn â buddion diffiniedig sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Yn yr un ffordd â'r mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae gwerthusiad blynyddol ar gyfer y cyfrifon statudol wedi dangos diffyg asedau o'i gymharu â rhwymedigaethau'r cynllun. Achoswyd y diffyg yn y lle cyntaf gan gwymp sylweddol yng ngwerth buddsoddiadau'r cynllun, yn arbennig y buddsoddiadau ecwiti, rhai blynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, mae'n arwyddocaol nodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi Gwarant y Goron ar 21 Mehefin 2006 mewn perthynas â 'phob swm sydd ei angen i sicrhau bod asedau'r cynllun yn ddigonol i dalu ei holl rwymedigaethau'.

Mae manylion am y modd y cyfrifir costau pensiwn yn cael eu cynnwys yn nodyn polisïau cyfrifo sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon. Mae nodyn 16 i'r Adroddiad Ariannol yn cynnwys y manylion datgelu y gofynnir amdanynt dan Ddatganiad Adroddiad Ariannol 17, ac yn cymharu gwerth asedau'r cynllun heddiw â'i rhwymedigaethau posibl. Ar 31 Mawrth 2007, roedd gwerth diffyg y cynllun wedi codi i £14.001m o'i gymharu â diffyg cychwynnol o £9.693m. Rhan allweddol o gyfrifon safle'r cynllun yw graddfa'r gostyngiad sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo gwerth cyfredol y rhwymedigaethau. Mae rheidrwydd ar yr Amgueddfa gydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys, sydd eleni yn cynnwys cyfarwyddyd y dylid defnyddio graddfa gostyngiad o 1.8% dros ben y gyfradd chwyddiant. Cymerwyd y raddfa angenrheidiol i ystyriaeth yn y cyfrifiad gan actwari'r cynllun. Mae'r cynnydd ym malans diffyg y cynllun yn bennaf oherwydd y gyfradd disgownt sylweddol is yma o'i gymharu â'r llynedd, am fod hyn wedi cynyddu'r rhwymedigaethau'n sylweddol. Mae llawer o gwmnïau'r sector preifat yn debygol o ddefnyddio cyfradd disgownt sydd tua 2.25% yn uwch na'r gyfradd chwyddiant o'i gymharu â'r 1.8% y mae gofyn i'r Amgueddfa ei defnyddio. Mae'r elw uwch na'r disgwyl ar fuddsoddiadau a'r ffaith fod cyfraniadau'r Amgueddfa yn uwch na'r gost gwasanaethu cyfredol wedi lleddfu'r effaith rhyw ychydig.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Amgueddfa wedi cymryd gwahanol gamau i fynd i'r afael â'r diffyg, gan gynnwys cynnydd o 4.5% yng nghyfraniadau'r cyflogwr i'r 21.3% cyfredol, a chafwyd hwb ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr Amgueddfa'n dal ati i ofyn i'r Cynulliad am gymorth ariannol i'r Cynllun, ond yn y cyfamser, bydd yn parhau i wneud cyfraniadau o'i hadnoddau ei hun pan fo modd ac yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolwyr y Cynllun i ddileu'r diffyg.

Datblygiadau at y dyfodol

Gweledigaeth Amgueddfa Cymru: Creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol
Yn 2006/07 rydym wedi parhau â'n gwaith i bennu set o 'feysydd gwaith blaenoriaeth' a fydd yn sail i'n Gweledigaeth sef *Creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol* a fydd yn creu fframwaith ar gyfer ein gwaith dros y ddegawd nesaf a'r tu hwnt. Mae'r blaenoriaethau hyn yn parhau i arwain ein gwaith yn y saith maes allweddol a bennir yn ein nodau ac amcanion cyfoes ar dudalen 1.

Cynllunio cyfalaf
Mae rhaglen bwysig o waith cyfalaf yn parhau fel sail i Weledigaeth yr Amgueddfa, ac mae'r rhaglen gynllunio cyfalaf yn canolbwyntio ar ailddiffinio ein dwy amgueddfa mwyaf poblogaidd. Mae Sain Ffagan yn datblygu i fod yn amgueddfa hanes i Gymru a bydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym Mharc Cathays yn esblygu i greu dwy amgueddfa gysylltiedig, Amgueddfa Hanes Natur Cymru ac Amgueddfa Gelf Cymru.

Mae'r gwaith cychwynnol yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y casgliadau'n cael eu stori mewn lle priodol. Cafodd hyn ei ategu trwy fynd i'r afael â'r gwaith cynnal-a-chadw sydd wedi cronni. Ar ôl cwblhau'r gwaith yma, bydd yn sicrhau bod yr Amgueddfeydd yn gallu gwrthsefyll y tywydd, bod ganddynt well mannau cyhoeddus, ac i ddilyn hyn byddwn ni'n ail-arddangos y casgliadau parhaol ar y safleoedd hyn.

Mae projectau cychwynnol y Prif Gynllun wedi cynnwys:

Y Project Gofal a Mynediad at y Casgliadau
Y prif ddatblygiad yn ystod y flwyddyn oedd cwblhau'r gwaith o ymestyn Canolfan Gasgliadau Cymru yn Nantgarw i greu cyfleusterau storio a chadwraeth ar gyfer llawer o gasgliadau cadw Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Cafodd y casgliadau cadw eu symud i'r cyfleuster newydd ddiwedd y flwyddyn.

Dechreuodd gwaith i adeiladau'r Ganolfan Casgliadau Domestig yn Sain Ffagan, ac i ailwampio'r Storfa 'Atcost', sef cartref casgliadau amaeth yr Amgueddfa. I hwyluso'r gwaith, cafodd y casgliadau eu symud dros dro i'r adeilad newydd yn Nantgarw.

Y rhan olaf o'r Project oedd sefydlu storfa gelf newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Crëwyd y lle hwn, lle rhaid rheoli'r amodau'n ofalus, yn yr ystafelloedd a adawyd yn wag gan y Casgliad Allestyn Addysgol, sydd wedi symud i Nantgarw. Mae creu storfa gelf ychwanegol yn ddatblygiad pwysig, oherwydd yn ogystal â chreu lle y mae mawr angen amdano i storio'r casgliad cadw, mae hi wedi creu lle i gadw'r casgliadau dros dro yn ystod y gwaith yn yr orielau yn rhan o'r project Cynnal-a-chadw Hanfodol.

Gwaith cynnal-a-chadw hanfodol
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i roi £3.0m dros gyfnod o dair blynedd er mwyn galluogi i'r Amgueddfa ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion buddsoddi cyfalaf tymor hir sy'n ei hwynebu. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn canolbwyntio ar drwsio'r rhannau diffygiol o'r to yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, bydd angen gwella'r gwasanaethau trydan ar y ddau safle yma hefyd. Er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o'r cyllid yma, mae'r Amgueddfa wedi ychwanegu £500,000 y flwyddyn o'r gyllideb cyfalaf i gyflawni'r gwaith.

Yn ystod 2006/07, bu'r gwaith yn canolbwyntio ar adnewyddu'r to dros ben Adain Ddwyreiniol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a'r gwaith cysylltiedig. Yn Sain Ffagan, bu'r gwaith yn canolbwyntio ar drwsio to'r Castell.

Ail-arddangos y casgliadau
Llwyddwyd i gwblhau arddangosfa Oriel 1 yn Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru yn ystod y flwyddyn. Noddwyd yr oriel trwy garedigrwydd Cymdeithas Adeiladu Principality, ac mae'n archwilio'r thema 'Perthyn'. Mae'r oriel yn adeiladu ar ein dymuniad i ddenu cynulleidfaoedd newydd, a chaiff hyn ei wireddu trwy arddangosfeydd sy'n adlewyrchu amrywiaeth o ddiwylliannau, cymunedau a hunaniaethau yn y Gymru sydd ohoni.

Parhaodd y gwaith i baratoi arddangosfa Archeoleg newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac er mwyn hwyluso hyn, cafodd y casgliadau eu symud o'u hen fannau arddangos i baratoi i'w gosod mewn arddangosfa newydd o'r enw *Gwreiddiau* a fydd yn agor ddiwedd 2007.

Mae'r gwaith Cynnal-a-chadw Hanfodol ar weddill yr Adain Ddwyreiniol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi gofyn am dynnu'r casgliad celf yn barod i'w hail-arddangos yn raddol o Dachwedd 2007 ymlaen. Cyn hynny, caiff casgliad y Chwiorydd Davies ei ail-arddangos yn y Bloc Canol. Mae'r gwaith paratoadol eisoes wedi dechrau.

Y Rhith-Amgueddfa
Mae gweledigaeth yr Amgueddfa – sef creu *Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol* – yn cynnwys ymrwymiad i: 'ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i greu 'Rhith-Amgueddfa i Gymru' â chwmpas lleol a byd-eang, er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu newydd mewn gwahanol ffyrdd ac amgylchiadau'.

Yn 2006/07, gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu'r cysyniad, ac ar ôl gorffen y gwaith datblygu, bydd y Rhith-Amgueddfa yn wythfed safle yn hytrach na dim ond man cyhoeddi ychwanegol ar gyfer ein gweithgareddau.

Bwriedir lansio Rhan 1 o'r Rhith-Amgueddfa ym mis Medi 2007, sef blwyddyn ein Canmlwyddiant.

Polisïau mewn perthynas â staff

Cyfleoedd cyfartal a'r camau a gymerwyd mewn perthynas â chyflogi gweithwyr anabl
Nid yw trefn benodi'r Amgueddfa'n wahaniaethol ac mae bob amser yn barod i ystyried ceisiadau gan bobl anabl, a'u penodi. Yn fwy na hynny, gwneir bob ymdrech i sicrhau y darperir y cyfleusterau angenrheidiol i alluogi staff anabl i weithio'n effeithiol. At hynny, mae'r Amgueddfa wedi buddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus er mwyn gwneud adeiladau a gwybodaeth yr amgueddfeydd yn fwy hygyrch i bobl anabl. Mae gweithgor, dan gadeiryddiaeth un o'r Cyfarwyddwyr, yn parhau i asesu cyfrifoldeb yr Amgueddfa i weithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd.

Yn ogystal â'i pholisi ar anabledd, yn ei pholisi ar Gyfleoedd Cyfartal, mae'r Amgueddfa'n nodi ei bod 'wedi ymrwymo i ddileu pob math o wahaniaethu ac aflonyddwch yn y sefydliad'. Mae hyn yn cwmpasu rhyw, statws priodasol, anabledd, lliw, hil a chenedl, tarddiad ethnig, cyfeiriadaeth rywiol, cyfrifoldeb teuluol, oedran a ffydd grefyddol.

Y camau a gymerwyd i gynnal a datblygu'r dulliau o rannu gwybodaeth ac ymgynghori â staff
Mae'r Amgueddfa yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005 gan ymgynghori ar y prif newidiadau mewn polisi trwy'r undebau. Mae hyn yn gosod sylfaen ein safbwynt cyfreithiol, a chaiff hyn ei ehangu gan bortffolio o brosesau hwyluso, gan gynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adran, gweithgorau, e-bost, y fewnrwyd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel bo'n briodol.

Hyfforddi staff
Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd datblygu a hyfforddiant i'w holl staff er mwyn sicrhau:

- eu bod yn gallu cyfrannu at yr amcanion cyffredinol yn y ffordd fwyaf effeithiol
- bod ganddynt gyfleoedd priodol i ddatblygu'n bersonol a mynd â'u gyrfa yn ei flaen
- eu bod yn cael cefnogaeth rheolwyr â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol ar bob lefel
- eu bod yn caffael amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau, arbenigol a chyffredinol, er mwyn i'r Amgueddfa ddatblygu gweithlu â sgiliau sylfaenol eang.

Mae'r Amgueddfa wedi dechrau proses i geisio ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl ar bob un o'i safleoedd, a llwyddwyd i wireddu hyn yn Big Pit ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Amgueddfa Lechi Cymru fydd y nesaf i gael ei asesu.

Adroddiad ar daliadau
Mae'r Amgueddfa'n talu bob aelod o staff dan system gyflogau a graddau a gytunwyd, a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd yn benodol er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn. Cymerodd hyn le'r hen system, oedd wedi caniatáu diffyg cydbwysedd yn y berthynas rhwng swyddi a thâl a diffyg cydraddoldeb rhwng tâl dynion a menywod. Datblygwyd ein system newydd yn fewnol gan weithgor oedd yn cynnwys croestoriad o staff a chynrychiolwyr yr undebau dan arweiniad yr Adran Adnoddau Dynol, sydd wedi cael y cyfrifoldeb o gynnal y system.

Mae'n cwmpasu holl staff yr Amgueddfa ym mhob man, heblaw am y Cyfarwyddwr Cyffredinol, am fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu telerau ei benodiad. Mae proses apelio annibynnol ar gael er mwyn ystyried graddfeydd. Bob blwyddyn mae'r Adran Adnoddau Dynol yn ystyried cyflogau'r Amgueddfa yn erbyn rhai cyffelyb allanol, newidiadau yn yr economi ac unrhyw anghydraddoldeb sydd wedi datblygu'n fewnol. Caiff cylch cyflogau neu argymhelliad tâl ei lunio ar sail drwy hyn, a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w gymeradwyo ac i'r Undebau i'w drafod. Mae pecyn cyflogau ac amodau newydd ar gyfer yr Amgueddfa i gyd yn codi o hyn. Rhaid cadw at y pecyn hyd at y cylch nesaf. Mae cynnydd blynyddol o dan y cylch cyflogau'n dibynnu ar system yr Amgueddfa o adolygiadau datblygu personol. Mae'r holl staff yn derbyn elfennau chwyddiant a gynhwysir yn y cylch cyflogau yn awtomatig.

Mae cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â bonws blynyddol. Mae'r Pwyllgor Taliadau, sy'n cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd, y Trysorydd a Dr W. B. Willott, yn cytuno ar faint y bonws (hyd at uchafswm o 10% o'i gyflog). Wrth ystyried maint y bonws, caiff perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei adolygu yn erbyn set o amcanion a bennwyd ymlaen llaw, a bydd y Pwyllgor Taliadau yn ystyried y gwerthusiad. Caiff canran o'r bonws ei gyfuno i'w gyflog blynyddol, a chaiff y swm ei benderfynu ar sail canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhestrir aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa ar dudalen 14 a cheir rhagor o fanylion am daliadau a budd-daliadau pensiwn y Cyfarwyddwyr yn nodyn 7(c) i'r Cyfrifon.

Nid oes neb o'r Cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, a chyflogir pob un, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan amodau a thelerau arferol yr Amgueddfa. Mae unrhyw addasiadau i amodau a thelerau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn dibynnu ar gytundeb y Pwyllgor Taliadau a Llywodraeth Cynulliad Cymru, lle bo hynny'n briodol.

Mae'r cyfnod o rybudd i derfynu cyflogaeth Cyfarwyddwyr yn amrywio yn ôl hyd eu gwasanaeth. Mae angen rhoi 5 wythnos o rybudd am gyfnod llai na 4 blynedd o wasanaeth. Wedi hynny, mae angen rhoi 1 wythnos o rybudd am bob blwyddyn o wasanaeth (ac 1 wythnos ychwanegol) hyd at uchafswm o 13 wythnos. Mae hawl gan y Cyfarwyddwyr Cyffredinol i gael 6 mis o rybudd. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y Cyfarwyddwyr: Michael Houlihan (Cyfarwyddwr Cyffredinol) -14 Ebrill 2003; Eurwyn Wiliam – 29 Medi 1971; Jon Sheppard – 1 Tachwedd 2002; John Williams-Davies – 1 Medi 1973; Michael Tooby – 1 Ionawr
2000; Mark Richards – 25 Ionawr 1999; Robin Gwyn – 1 Chwefror 2001. Disgrifir y ddarpariaeth ar gyfer
iawndal am derfyniad cynnar yng nghytundeb diswyddo arferol yr Amgueddfa.

Polisi iaith Gymraeg
Disgwylir i bob CNLC Iunio ac adolygu strategaeth i brif-ffrydio'r Gymraeg bob blwyddyn (gan gynnwys gweithredu Cynllun Iaith). Gweithredwyd Strategaeth Prif-ffrydio'r Amgueddfa ar gyfer 2006/07 yn llwyr ac fe'i diwygiwyd wedyn i adlewyrchu goblygiadau prif-ffrydio Cynllun Gweithredu cyffredinol 2007/08.

Yn ystod 2006/07, comisiynwyd yr ymgynghorwyr iaith Cwmni Iaith i adolygu gwaith Adran Adnoddau Dynol yr Amgueddfa i sicrhau rheolaeth strategol briodol ar sgiliau iaith y sefydliad yn ôl gofynion ein Cynllun Iaith statudol. Cyflawnwyd yr adolygiad yng nghyd-destun:

(i) Canllawiau statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg
(ii) Cyngor blaenorol Cwmni Iaith a'u profiad helaeth o gynghori, a gweithio gyda chyrff cyhoeddus ar faterion tebyg.

Casgliad yr adolygiad oedd bod yr Amgueddfa 'wedi gweithredu'n effeithiol wrth ymateb i'r her o sicrhau rheolaeth gydlynol briodol dros ei adnoddau sgiliau dwyieithog trwy weithredu'r broses a argymhellir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.'

Yr Archwilydd
Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn ôl gofynion Adran 9 (8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae manylion tâl yr archwilydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007 yn Nodyn 6 i'r Cyfrifon Ariannol.

Prif swyddfa
Prif swyddfa Amgueddfa Genedlaethol Cymru yw: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

Prif ymgynghorwyr

Bancwyr:	Lloyds TSB Bank CCC, Caerdydd
Cyfreithwyr:	Geldards LLP, Caerdydd
Archwilwyr Mewnol:	Bentley Jennison Risk Management Cyf., Caerdydd
Rheolwyr Buddsoddiadau:	Gerrard Investment Management Cyf., Caerdydd
Rheolwyr y Gronfa Bensiynau:	Mercer Human Resource Consulting, Bryste
Trethiant:	Deloitte & Touche LLP, Caerdydd

Michael Houlihan
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
24 Gorffennaf 2007

G. Wyn Howells
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
24 Gorffennaf 2007

Llys y Llywodraethwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Llys y Llywodraethwyr
(O 1 Ebrill 2006 tan 19 Medi 2006)

Llywydd
Paul E. Loveluck CBE, JP, BA

Cyn-lywydd Diwethaf
Mathew Prichard CBE, DL, BA

Is-lywydd
Dr Susan J. Davies BA

Trysorydd
G. Wyn Howells ACIB

Aelodau'r Cyngor nad ydynt fel arall yn Aelodau o'r Llys
J. W. Evans CBE, MA
Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA
Jane Peirson Jones MA, FMA

Penodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
H. R. C. Williams
Rhiannon Wyn Hughes MBE
Elisabeth Elias MA, DL (o 1 Mehefin 2006)
Gareth Williams (o 1 Mehefin 2006)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Dr R. Brinley Jones CBE

Prifysgol Cymru
Mair Waldo Thomas
Yr Athro J. King

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
Y Cynghorydd G. Richards

Aelodau Seneddol Cymru
Gwag

Penodwyd Gan y Llys
D. Bowen Lewis
Dr W. B. Willott, CB
H. Mansfield
Yr Athro J. Last, CBE, MA, D.Litt.Hon., FMA, FRSA
Dr Iolo ap Gwynn, B.Sc., Ph.D., FRMS

Cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol
Y Cynghorydd P. G. Larsen
Y Cynghorydd P. M. Thomas
Y Cynghorydd R. H. Poole
Y Cynghorydd D. I. Bowen
Y Cynghorydd J. Austin
Y Cynghorydd R. G. Harris
Y Cynghorydd J. Major
Y Cynghorydd J. M. Humberstone
Y Cynghorydd Mrs E. McIlveen
Y Cynghorydd M. C. Wilkins

Sefydliadau yng Nghymru

Cymdeithas Hynafiaethau Cymru:	D. Moore
Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol:	R. Alun Evans
Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru:	H. Looker
Cyngor Amgueddfeydd Cymru:	Y Cynghorydd R. Francis-Davies
TUC Cymru:	A. Wellington
Cyngor CBI Cymru:	*Gwag*
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:	M. A. McLaggan
Cyngor Celfyddydau Cymru:	*Cadeirydd*
Bwrdd Croeso Cymru:	J. Jones
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru Cyf:	*Gwag*
Cyngor Cefn Gwlad Cymru:	Y Prif Weithredwr
Cyngor Archeoleg Prydain:	F. L. Llewelyn
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru:	C. J. Delaney

BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR (Y CYNGOR GYNT)
(O 1 Ebrill 2006 tan 23 Gorffennaf 2007)

Llywydd
Paul E. Loveluck CBE, JP, BA *

Cyn-lywydd Diwethaf
Mathew Prichard CBE, DL, BA

Is-lywydd
Dr Susan J. Davies BA *

Trysorydd
G. Wyn Howells ACIB *

Penodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
H. R. C. Williams
Rhiannon Wyn Hughes MBE
Elisabeth Elias MA, DL (o 1 Mehefin 2006) *
Gareth Williams (o 1 Mehefin 2006)

Penodwyd gan Lys y Llywodraethwyr
D. Bowen Lewis
Dr W. B Willott CB
Yr Athro J. Last CBE, MA, D.Litt., Hon. FMA, FRSA
Dr Iolo ap Gwynn B.Sc., Ph.D., FRMS

Penodwyd gan y Cyngor
J. W. Evans CBE, MA (hyd 21 Mehefin 2007)
Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA
Jane Peirson Jones MA, FMA
J. Peter W. Morgan M.Sc., FCA (o 7 Rhagfyr 2006) *

* Yn dynodi aelodau'r Pwyllgor Archwilio

Bwrdd y Cyfarwyddwyr
(O 1 Ebrill 2006 hyd 23 Gorffennaf 2007)

Cyfarwyddwr Cyffredinol	Michael Houlihan
Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol	Eurwyn Wiliam
Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Robin Gwyn
Cyfarwyddwr Datblygu Strategol	Mark Richards
Cyfarwyddwr Cyllid	Jon Sheppard
Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	Michael Tooby
Cyfarwyddwr Gweithredu yr Amgueddfeydd	John Williams-Davies

Datganiad o gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (2005): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, yn arbennig:

- cadw at gyfarwyddyd cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a'u defnyddio nhw a'r polisïau cyfrifo perthnasol mewn ffordd gyson;
- barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a chall;
- nodi a yw'r safonau cyfrifo a'r datganiadau o arferion cymeradwy perthnasol wedi cael eu dilyn fel a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, a chadw cofnodion priodol.

Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, sef cynrychiolydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr yr Amgueddfa, ac maent wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr yr Amgueddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Datganiad ar reolaeth fewnol

1. **Cwmpas y cyfrifoldeb**

Mae'r Swyddog Cyfrifo a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i wireddu polisïau, nodau ac amcanion Amgueddfa Genedlaethol Cymru a bennwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo'n bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo o ran Cyfrifon y Llywodraeth.

2. **Pwrpas y system reolaeth fewnol**

Bwriad y system reolaeth fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; nid yw'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae'n cynnig lefel resymol o sicrwydd. Wrth wraidd y system o reolaeth fewnol mae proses barhaus i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Amgueddfa, pwyso a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system o reolaeth fewnol yn gweithredu gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

3. **Y gallu i ymdrin â risg**

Cyfrifoldeb y Bwrdd Rheoli (y Cyfarwyddwyr) yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ffurfiol eu cynnal gan Grŵp Rheoli Risg. Caiff yr adolygiadau hyn eu harchwilio gan is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio annibynnol. Drwy dynnu ar brofiad yr archwilwyr mewnol, sy'n mynychu'r adolygiadau risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, caiff y broses ei adnewyddu'n barhaus trwy gymharu â sefydliadau eraill.

4. **Y Fframwaith Risgiau**

Mae grŵp trawsadrannol penodol yn cynnal adolygiad Rheoli Risg trylwyr, gan edrych ar y cynnydd wrth reoli risgiau mawr, gan gynnwys, wrth gwrs, diogelwch parhaus casgliadau'r Amgueddfa. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risgiau gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl y tebygolrwydd i'r perygl gael ei wireddu a'i effeithiau posibl. Mae'r grŵp yn trafod newidiadau i'r bygythiadau posibl i wireddu nodau'r Amgueddfa gyda'r holl benaethiaid adran yn gyson, a thrwy hynny'n sicrhau bod y risgiau sy'n cael eu hasesu yn cwmpasu pob agwedd o weithredoedd yr Amgueddfa.

Cedwir Cofrestrau Risg ar wahân ar gyfer yr is-gwmni masnachu ac ar gyfer pob project mawr a gyflawnir. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei drosglwyddo i brif gofrestr yr Amgueddfa.

Mae gofyn i'r grŵp ystyried risgiau posibl penodol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. At hynny, mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â gweithredoedd lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys yr archwilydd mewnol er mwyn trafod materion sy'n codi pryder mewn cyrff eraill. Mae cynrychiolaeth yr adrannau'n cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod pob risg posibl yn cael ei drafod.

Mae'r Polisi a Chanllawiau Rheoli Risg yn pennu'r fframwaith, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar adnabod, asesu, monitro a rheoli risg.

5. **Adolygiad o effeithiolrwydd**

Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a'r Bwrdd Rheoli – sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli fewnol – a sylwadau archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, yn bwydo'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Mae yna gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau sy'n codi ac i sicrhau gwelliannau parhaus. Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifo am oblygiadau canlyniad

ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli fewnol gan yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun i wynebu gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system.

Mae'r Amgueddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol:

- trefniadau gweinyddu a rheoliadau ariannol trylwyr, gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod a ddirprwyir;
- systemau cyllidebu cynhwysfawr â chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr ac a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd gan y Penaethiaid Adran, y Cyfarwyddwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar ffurf adroddiadau ariannol chwarterol sy'n disgrifio perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall o fewn y Cynllun Gweithredol, a monitro'r cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Adolygu Perfformiad;
- canllawiau clir ar gyfer rheoli a monitro buddsoddiadau cyfalaf;
- adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol yn ôl safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system o reolaeth fewnol ac yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella.

Un o gydrannau allweddol adolygiad yr Amgueddfa o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol yw'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Ymddiriedolwyr a hyd at bedwar o aelodau annibynnol (y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd fel rheol). Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae cofnodion y cyfarfod, ac adroddiad y Cadeirydd yn cael eu hystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r cyfarfodydd yn derbyn adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol ac yn canlyn yr holl bwyntiau gweithredu sy'n codi. Mae Cyfarwyddwyr allweddol yn mynychu'r cyfarfodydd fel y bo'n briodol i'r agenda, ac mae'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr yn flynyddol heb Gyfarwyddwyr ac i'r gwrthwyneb. Mae cylch gwaith bras y Pwyllgor yn cynnwys pob agwedd ar risg, rheolaeth a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys adroddiadau rheoli risg.

Michael Houlihan
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
24 Gorffennaf 2007

G. Wyn Howells
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
24 Gorffennaf 2007

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwy'n tystio fy mod i wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y polisïau cyfrifo a ddisgrifir ynddynt.

Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Ariannol a'r Datganiadau Ariannol yn unol ag Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed odani, ac am sicrhau cysondeb o ran y trafodion ariannol a ariennir gan y cymhorthdal grant. Disgrifir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w archwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Rwyf yn adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gawsant eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymru yn ôl y gofynion hynny. Rwyf yn adrodd fy marn o ran, a yw'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol. Rwyf yn adrodd hefyd a gafodd y gwariant, yr incwm a'r adnoddau a ariannwyd drwy gymhorthdal grant, ym mhob modd perthnasol, eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad, neu os na chafodd gwybodaeth a gefais gan awdurdodau perthnasol, ynglŷn â thaliadau neu
drafodion eraill, ei datgelu.

Rwyf yn ystyried a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar dudalennau 16 ac 17 yn dangos bod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, ac yn adrodd os nad yw'n cydymffurfio. Nid oes gofyn i mi ystyried, a yw'r Datganiad yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, na mynegi barn am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Amgueddfa na'i threfniadau risg a
rheolaeth.

Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Ariannol, gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'r adroddiad os caf wybod am unrhyw gamddatganiad sy'n dod i'r amlwg neu anghysonderau materol yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i gwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

Sail y farn
Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w archwilio. Mae'n cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol y mae'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn eu gwneud wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i sefyllfa Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn cael eu harfer yn gyson ac yn cael eu datgelu mewn digon o fanylder.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau oedd eu hangen, yn fy marn i, i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w archwilio, yn rhydd o gamfynegiant materol; boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a bod y gwariant, incwm ac adnoddau a ariannwyd trwy gymhorthdal grant wedi cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso'n gyffredinol addasrwydd y dull o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd angen ei archwilio.

Y farn

Barn yr Archwilydd

Yn fy marn i:
mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r grŵp ar 31 Mawrth 2007, o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'u defnydd, a llif arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed odani gan Weinidogion Cymru;

fe'u paratowyd yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed odani gan Weinidogion Cymru; ac

mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

Barn yr Archwilydd ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd faterol, mae'r gwariant, yr incwm a'r adnoddau a ariannwyd drwy gymhorthdal grant wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Deri House
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA
3 Awst 2007

		Cronfeydd cyhoeddus		Cronfeydd preifat		2006/
		Cyfyngedig	Digfyngiad	Cyfyngedig	Digfyngiad	Cyfar
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Nodiadau					
ODDAU I MEWN						
ithgareddau codi arian:						
m o fuddsoddi		0	0	61	7	**68**
m o'r is-gwmni masnachu	2	0	2,488	0	0	**2,488**
m codi arian		0	0	171	43	**214**
		0	**2,488**	**232**	**50**	**2,770**
ithgareddau datblygu gwrthrychau elusennol:						
ıtiau	3	4,357	20,744	0	0	**25,10**
ddion a chymynroddion	4	235	0	211	76	**522**
m arall	5	24	1,248	19	1	**1,292**
		4,616	**21,992**	**230**	**77**	**26,91**
		-	-	-	-	-
ANSWM YR ADNODDAU I MEWN		**4,616**	**24,480**	**462**	**127**	**29,68**
ODDAU A WARIWYD	6&7					
creu incwm:						
au'r is-gwmni masnachu		0	2,233	0	0	**2,233**
au codi arian		0	530	0	34	**564**
		0	**2,763**	**0**	**34**	**2,797**
au gweithgareddau elusennol:						
ju a Rhaglennu		107	2,638	19	0	**2,764**
gliadau ac Ymchwil		1,069	7,169	62	0	**8,300**
ithredu'r Amgueddfeydd		498	10,972	316	22	**11,80**
		1,674	**20,779**	**397**	**22**	**22,87**
au llywodraethu		0	633	0	0	**633**
	-	-	-	-	-	-
au ariannu pensiynau	16	0	394	0	0	**394**
		-	-	-	-	-
ANSWM YR ADNODDAU A WARIAWYD		**1,674**	**24,569**	**397**	**56**	**26,69**
RAN O'R FENTER AR Y CYD	8	**(266)**	**0**	**0**	**0**	**(266)**
ODDAU NET I MEWN/(ALLAN)						
COSTAU ENWOL		**2,676**	**(89)**	**65**	**71**	**2,723**
au cyfalaf enwol		(3,440)	364	0	0	**(3,07**
ODDAU NET I MEWN/(ALLAN)						
TROSGLWYDDIADAU		**(764)**	**275**	**65**	**71**	**(353)**
rdroi costau cyfalaf enwol		3,440	(364)	0	0	**3,076**
ODDAU NET I MEWN/(ALLAN)						
GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL		**2,676**	**(89)**	**65**	**71**	**2,723**
on/(Colledion) [illegible]		-	-	-	-	-
[illegible] fwriadwyd at Ddefnydd Elusennol	16	0	(4,347)	0	0	**(4,34**
on a wireddwyd/na wireddwyd wrth brisio						
ID NET YN Y CRONFEYDD YN						

OD Y FLWYDDYN ARIANNOL		5,566	(4,426)	167	84	1,391
ANS Y GRONFA AR 1 EBRILL 2006	17	95,502	(8,179)	3,618	339	91,28
ANS Y GRONFA AR 31 MAWRTH 2007	17	101,068	(12,605)	3,785	423	92,67

'r SOFA uchod yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd.

'r holl weithgareddau'n parhau.

006/07, cofnodwyd cynnydd net anghyfunol o £1,382,000 (lleihad o £8,806,000 yn 2005/06) yn y cronfeydd yn Natganiad mgueddfa o'i Gweithgareddau Ariannol.

'r nodiadau ar dudalennau 23 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

ITOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2007

	Nodiadau	Amgueddfa 2007 £'000	2006 £'000	Cyfunol 2007 £'000	20 £'0
DAU SEFYDLOG					
lau diriaethol	9	**77,610**	71,688	**77,628**	71
lau treftadaeth	10	**11,658**	10,985	**11,658**	10
an o'r fenter ar y cyd:	8				
Cyfran o'r asedau gros		**13,513**	13,985	**13,513**	13
Cyfran o'r rhwymedigaethau gros		**(129)**	(335)	**(129)**	(3
		13,384	13,650	**13,384**	13
dsoddiadau	11	**2,133**	2,055	**2,133**	2,(
		104,785	98,378	**104,803**	98
DAU CYFOES					
	12	**137**	106	**495**	48
dwyr i dalu cyn pen un flwyddyn	13	**1,899**	2,791	**1,453**	2,2
dwyr i dalu mewn dros blwyddyn	13	**39**	71	**39**	71
n yn y banc ac arian parod		**852**	620	**1,048**	92
		2,927	3,588	**3,035**	3,7
DYDWYR					
iau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn	14	**(1,066)**	(970)	**(1,124)**	(1,
DAU NET CYFOES		**1,861**	2,618	**1,911**	2,(
ANSWM ASEDAU LLAI'R RHWYMEDIGAETHAU CYFOES		**106,646**	100,996	**106,714**	10
DYDWYR					
iau sy'n ddyledus mewn dros blwyddyn	15	**(42)**	(82)	**(42)**	(8
DAU NET HEB GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R LLUN PENSIWN		**106,604**	100,914	**106,672**	10
ymedigaethau i'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig	16	**(14,001)**	(9,693)	**(14,001)**	(9,
DAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R LLUN PENSIWN		**92,603**	91,221	**92,671**	91
NFEYDD	17				
feydd cyhoeddus cyfyngedig		**101,068**	95,502	**101,068**	95
feydd cyhoeddus digfyngiad		**1,328**	1,455	**1,396**	1,5
feydd pensiwn		**(14,001)**	(9,693)	**(14,001)**	(9,
nswm y cronfeydd cyhoeddus digfyngiad		**(12,673)**	(8,238)	**(12,605)**	(8,
feydd preifat cyfyngedig		**3,785**	3,618	**3,785**	3,6
feydd preifat digfyngiad		**423**	339	**423**	33
		92,603	91,221	**92,671**	91

nodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr

iael Houlihan

ddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol

G. Wyn Howells

Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

eradwywyd a llofnodwyd ar 24 Gorffennaf 2007

'r nodiadau ar dudalennau 23 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 24 Gorffennaf 2007

CYFRIFLEN LLIF ARIAN GYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2007

		Amgueddfa		Cyfunol	
		2006/07	2005/06	**2006/07**	2005/06
		£'000	£'000	**£'000**	£'000
	Nodiadau				
Llif arian parod net i mewn o weithgarwch gweithredu	18	**4,365**	3,355	**4,278**	3,309
Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol	19	**(4,133)**	(3,262)	**(4,153)**	(3,262)
Cynnydd mewn arian parod	20	**232**	93	**125**	47

Mae'r nodiadau ar dudalennau 23 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007

1. Polisïau cyfrifo

1.1 Y sail cyfrifo
Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys adbrisiad o'r asedau sefydlog diriaethol o ran eu gwerth i'r Amgueddfa. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP 2005), Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, lle bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau i'r SORP Elusennau fod yn
berthnasol o ran yr angen am ddatgelu cost hanesyddol asedau diriaethol.

1.2 Trafodion y fenter ar y cyd
Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) Cyf, cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfran cyfalaf. Cynhwysir canlyniadau'r fenter ar y cyd yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros.

1.3 Trafodion yr is-gwmni
Mae'r Amgueddfa'n gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (Mentrau AOCC) Cyf. Cynhwysir canlyniadau masnachu'r cwmni yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Cafwyd barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Mentrau AOCC Cyf. ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2007. Gellir cael copi o'r cyfrifon llawn o Brif Swyddfa'r Amgueddfa sef: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

1.4 Adnoddau i mewn
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os bodlonwyd yr amodau ar gyfer eu derbyn.

1.5 Adnoddau a wariwyd
Caiff gwariant ei ddyrannu ar draws y penawdau gwariant. Caiff ei ddyrannu fel bo'n briodol, yn ôl dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol ar gyfer costau cynnal.

1.6 Asedau sefydlog diriaethol ac asedau treftadaeth
Caiff peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau eu prisio ar sail cost adnewyddu ar ôl dibrisiant. Caiff eiddo ar brydles a rhydd-ddaliad ei brisio ar sail gwerth economaidd eu defnydd neu gost adnewyddu ar ôl dibrisiant fel bo'n briodol. Caiff unrhyw waith cynnal-a-chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddileu yn ystod blwyddyn cyflawni'r gwaith.

Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy'n cael eu cadw at ddibenion datblygu amcanion cadwedigaeth, cadwraeth, ac addysgiadol elusennau, a chyfrannu drwy fynediad cyhoeddus i ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn wrth galon y gwaith o gyflawni amcanion yr Amgueddfa ac yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosion a chreiriau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd drwy grant sbesimenau neu a gyflwynwyd i'r Amgueddfa wedi cael eu cyfalafu ar sail cost hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw'r asedau a ddaeth i feddiant cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolwyr mae cost prisio'r rhain yn rhwystr.

Ni chaiff eitemau cyfalaf â chost o lai na £5,000 eu cyfalafu. Caiff asedau eu hadbrisio'n broffesiynol bob 5 mlynedd ac yn y cyfamser, caiff unrhyw asedau eu hadbrisio gan ddefnyddio mynegeion (ac eithrio adnoddau TG am nad oes mynegai ar eu cyfer) yn ogystal ag adolygiad blynyddol y rheolwyr o ddiffygion.

1.7 Dibrisiant
Caiff dibrisiant ei godi ar sail asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir ar rydd-ddaliad a threftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Bydd eiddo ar rydd-ddaliad ac eiddo ar brydles hir yn dibrisio yn ystod ei oes ddefnyddiol sef

rhwng 50 a 125 mlynedd.

Yn ôl SORP Elusennau 2005, nid yw asedau treftadaeth yn dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddillol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant yn faterol.

Bydd peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau'n dibrisio dros 5-10 mlynedd. Mewn achosion penodol, er enghraifft yn achos eitemau sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o 3 blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.

Codir asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

1.8 Cronfeydd
Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Digyfyngiad ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill y Llywodraeth.

Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yw cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr. Rhaid i'r cronfeydd hyn gyd-fynd â'u gweithredoedd sefydlu.

1.9 Stoc
Mae'r Amgueddfa'n cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ei siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth net y maent yn ei dynnu.

1.10 Buddsoddiadau
Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Polisi'r Amgueddfa yw cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fo buddsoddiadau yn cael eu gwerthu nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau prisio yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau parhaus am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth portffolio buddsoddiad drwy gydol y flwyddyn.

1.11 Gwaith ymchwil a datblygu
Caiff gwariant ar waith ymchwil a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn o dan sylw.

1.12 Trethiant
Mae Cyllid y Wlad wedi rhoi statws elusen i'r Amgueddfa, ond codir Treth Gorfforaeth ar Fentrau Cyf. AOCC.

1.13 Pensiynau
Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Cyfrifir y gost yn ôl y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail y costau gwasanaethu fel y'u cyfrifir gan actwari'r cynllun.

1.14 Cost cyfalaf
Mae Cyfrifon y Llywodraeth yn gofyn am gynnwys cost dybiannol cyfalaf, a gyfrifir drwy osod canran o 3.5% ar y cyfalaf cyhoeddus cyfartalog. Mae cost taliadau cyfalaf yn mesur adenillion priodol ar ecwiti'r trethdalwyr.

1.15 Deilliannau
Nid oes unrhyw fenthyciadau gan yr Amgueddfa ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau'r Llywodraeth o ran ei anghenion arian parod. Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau materol wedi eu nodi mewn sterling, ac nid ydynt yn agored i risgiau o ran cyfraddau llog neu arian treigl.

2. Yr is-gwmni masnachu

Mae gan yr Amgueddfa is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi. Mae'r is-gwmni'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif waith Mentrau AOCC Cyf. yw gwerthu nwyddau'r holl siopau'r Amgueddfa, arlwyaeth, parcio, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, archebion post ac elw o werthu arddangosfeydd a

hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf. yn dychwelyd ei elw i'r Amgueddfa ar ffurf rhoddion cymorth. Ceir crynodeb o'u canlyniadau masnachu isod.

	2006-07	2005-06
	£ '000	£ '000
Trosiant	**2,109**	1,662
Costau gwerthu	**(1,859)**	(1,322)
Elw gros	**250**	340
Costau gweinyddol	**(269)**	(249)
Incwm gweithredu arall	**356**	247
Llai costau uniongyrchol	**(86)**	(64)
Elw ar weithgareddau arferol cyn llog	**251**	274
Llog derbyniadwy	**23**	21
Llog taladwy	**(19)**	(18)
Elw ar weithgareddau arferol cyn trethi	**255**	277
Trethi ar elw gweithgareddau arferol	**0**	0
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	**255**	277
Cymorth rhoddion sy'n daladwy i'r Amgueddfa	**(246)**	(276)
Elw a gedwir ar gyfer y flwyddyn	**9**	1

3. Grantiau derbyniadwy

	Cyhoeddus Cyfyngedig	Cyhoeddus Digyfyngiad	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Cymhorthdal Refeniw	0	20,519	**20,519**	19,928
Cymhorthdal Prynu Sbesimenau	1,075	0	**1,075**	1,107
Cyhorthdal Cyfalaf	3,259	0	**3,259**	3,331
Grantiau o gyrff eraill y Llywodraeth	23	225	**248**	383
	4,357	**20,744**	**25,101**	24,749

Cafodd yr Amgueddfa gyfanswm o £24,853,000 mewn grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (£24,366,000 yn 2005/06). Mae hyn yn cynnwys Cymhorthdal Refeniw, Prynu Sbesimenau a Chyfalaf.

Mae'r grantiau a gafwyd gan gyrff eraill y llywodraeth yn cynnwys: grant o £55,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri(£125,000 yn 2005/06); grant o £135,000 gan yr Undeb Ewropeaidd (£103,000 yn 2005/06) a grant arall o £58,000 (£155,000 yn 2005/06).

4. Rhoddion a Chymynroddion

	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyhoeddus Digyfyngiad	Cronfeydd Cyfyngedig	Preifat Digyfyngiad	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Asedau a gyflwynwyd	0	0	105	0	**105**	97
Rhoddion eraill	235	0	106	76	**417**	299
	235	**0**	**211**	**76**	**522**	396

5. Incwm Arall

	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyhoeddus Digyfyngiad	Cronfeydd Preifat Cyfyngedig	Digyfyngiad	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Dysgu a Rhaglennu	0	142	0	0	**142**	195
Casgliadau ac Ymchwil	24	308	0	0	**332**	350
Gweithredu'r Amgueddfeydd	0	688	0	0	**688**	1,205
Cynhaliaeth	0	110	19	1	**130**	94
	24	**1,248**	**19**	**1**	**1,292**	1,844

6. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

(a) Amgueddfa

	Costau Uniongyrchol	Di-brisiant	Archnata, y Wasg a CC	Costau Cynnal Cyllid a nyddiaeth	TGCh	Adnoddau Dynol	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Costau creu incwm								
Costau codi arian	425	0	69	46	15	9	**564**	446
	425	0	69	46	15	9	**564**	446
Costau gweithgareddau elusennol								
Dysgu a Rhaglennu	2,424	83	86	29	92	50	**2,764**	2,832
Casgliadau ac Ymchwil	7,341	367	110	101	244	137	**8,300**	8,251
Gweithredu'r Amgueddfeydd	10,772	388	262	155	153	264	**11,994**	12,448
	20,537	838	458	285	489	451	**23,058**	23,531
Costau llywodraethu	501	0	109	4	12	7	**633**	579
Cost ariannu pensiynau	394	0	0	0	0	0	**394**	720
Cyfanswm a wariwyd	**21,857**	**838**	**636**	**335**	**516**	**467**	**24,649**	25,276

(b) Cyfunol

	Costau Uniongyrchol	Di-brisiant	Archnata, y Wasg a CC	Costau Cynnal Cyllid a nyddiaeth	TGCh	Adnoddau Dynol	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Costau creu incwm								
Costau'r is-gwmni masnachu	2,231	2	0	0	0	0	**2,233**	1,653
Costau codi arian	425	0	69	46	15	9	**564**	446
	2,656	2	69	46	15	9	**2,797**	2,099
Costau gweithgareddau elusennol								
Dysgu a Rhaglennu	2,424	83	86	29	92	50	**2,764**	2,832
Casgliadau ac Ymchwil	7,341	367	110	101	244	137	**8,300**	8,251
Gweithredu'r Amgueddfeydd	10,586	388	262	155	153	264	**11,808**	12,239
	20,351	838	458	285	489	451	**22,872**	23,322
Costau Llywodraethu	501	0	109	4	12	7	**633**	579
Costau Ariannu Pensiynau	394	0	0	0	0	0	**394**	720
Cyfanswm a Wariwyd	**23,902**	**840**	**636**	**335**	**516**	**467**	**26,696**	26,720

Cynhwysir £42,875 (£38,000 yn 2005/06) yn yr adnoddau a wariwyd i dalu'r archwilwyr allanol, £35,400 (£31,400 ar gyfer yr Amgueddfa) ar gyfer y ffi archwilio, a £7,475 (£6,900 ar gyfer yr Amgueddfa) am waith arall.

Cynhwysir £290,000 (£183,000 yn 2005/06) yn yr adnoddau a wariwyd mewn perthynas â gwariant yn ymwneud â grant yr UE.

Mae'r sail ar gyfer dyrannu costau cynnal fel a ganlyn: caiff costau Marchnata, y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus eu dyrannu yn ôl canran amser; caiff costau Cyllid a Gweinyddiaeth eu dyrannu yn ôl cyfanswm incwm a gwariant; caiff costau TGCh eu dyrannu yn ôl y nifer o gyfrifiaduron ac Adnoddau Dynol yn ôl y nifer o weithwyr sy'n cyfateb i amser llawn.

Mae'r costau llywodraethu'n cynnwys Costs cynllunio strategol, y Bwrdd a'r pwyllgorau, cysylltiadau â'r Cynulliad, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg a'r adroddiad a'r cyfrifon statudol.

7. Costau staffio

(a) Costau staffio yn ystod y flwyddyn:

	Cyfunol	
	2006-07	2005-06
	£'000	£'000
Cyflogau	**14,446**	13,927
Costau Nawdd Cymdeithasol	**1,069**	1,037
Costau gwasanaethu cyfoes	**2,383**	1,950
Costau diswyddo	**25**	0
	17,923	16,914
Costau ariannu pensiynau	**394**	720
	18,317	17,634

Mae'r costau staffio'n cynnwys £950,000 ar gyfer yr is-gwmni masnachu (£587,000 yn 2005/06).

Mae'r costau gweithredu'n cynnwys £39,000 ar gyfer staff asiantaeth (£67,000 yn 2005/06).

(b) Nifer gyfartalog fisol y staff cyfateb ag amser llawn:

	Staff Parhaol	Staff Arall	**Nifer 2006-07**	Nifer 2005-06
Is-gwmni masnachu	36	9	**45**	26
Codi arian	6	1	**7**	7
Dysgu a Rhaglennu	46	8	**54**	52
Casgliadau ac Ymchwil	130	25	**155**	159
Gweithredu'r Amgueddfeydd	270	23	**293**	304
Cynhaliaeth	64	3	**67**	69
	552	69	**621**	617

(c) Manylion tâl a budd-daliadau pensiwn cyfarwyddwyr yr Amgueddfa:

	Cyflog 2006/07 (2005/06)	Cynnydd go iawn o ran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed	Pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 07 a'r cyfandaliad cysylltiedig	CETV ar 31 Mawrth 07	CETV ar 31 Mawrth 06	Cynnydd go iawn yn y CETV ar ben cyfraniadau'r aelodau
	£	£	£	£	£	£
Mr Michael Houlihan Cyfarwyddwr Cyffredinol	96,447 (94,095)	1,200 plws 3,600 cyfandaliad	4,800 plws 14,400 cyfandaliad	107,300	74,400	24,400
Dr Eurwyn Wiliam Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol	67,554 (66,556)	200 plws 600 cyfandaliad	30,000 plws 90,000 cyfandaliad	659,500	586,900	47,300
Mr John Williams-Davies Cyfarwyddwr Gweithredu yr Amgueddfeydd	67,554 (65,556)	700 plws 2,100 cyfandaliad	28,400 plws 85,200 cyfandaliad	603,300	532,400	47,500
Mr Michael Tooby Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	64,884 (61,901)	1,000 plws 3,000 cyfandaliad	18,500 plws 55,500 cyfandaliad	279,500	208,700 (Ailddatganiad)	59,300
Mr Mark Richards Cyfarwyddwr Datblygu Strategol	67,554 (64,492)	900 plws 2,700 cyfandaliad	6,900 plws 20,700 cyfandaliad	95,900	68,100	21,300
Mr Robin Gwyn Cyfarwyddwr Cyfathrebu	59,544 (56,720)	800 plws 2,400 cyfandaliad	4,600 plws 13,800 cyfandaliad	63,200	40,000	18,200
Mr Jonathan Sheppard, Cyfarwyddwr Cyllid a TG	62,214 (59,311)	900 plws 2,700 cyfandaliad	9,000 plws 27,000 cyfandaliad	170,100	129,000	32,700

Mae enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £96,447 (£94,095 yn 2005/06) a bonws anghyfunol ar sail perfformiad o £6,270 (£6,120 yn 2005/06). Cafodd fudd-dâl mewn da hefyd, sef £3,589 (Dim yn 2005/06) o gymorth gyda chostau symud.

Mae cyfarwyddwyr yr Amgueddfa i gyd yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr Amgueddfa.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfartal ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Mae'r cynnydd go iawn yn y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan yr Amgueddfa i bob pwrpas. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithwyr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio ar y farchnad
gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod. Mae'r ffigur CETV ar gyfer Mr Michael Tooby wedi ei ailddatgan mewn perthynas â throsglwyddiad blaenorol i'r cynllun yn 2004. Mae'r ffigurau pensiwn a gronnwyd yn caniatáu ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol mewn perthynas â'r trosglwyddiad hwn.

(d) Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Nid yw aelodau'r Cyngor yn derbyn unrhyw dâl. Talwyd cyfanswm o £21,000 (£32,000 yn 2005/06) mewn costau teithio, cynhaliaeth a llety i aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Ad-dalwyd costau i gyfanswm o 10 ymddiriedolwr.

8. Cyfran o'r fenter ar y cyd

Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) Cyf.,(Rhif Elusen 1090512). Prif nod AGGA Cyf. yw sefydlu amgueddfa yn Abertawe i gadw ac arddangos (inter alia) holl gasgliadau diwydiannol a morol Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe er budd y cyhoedd. Pe câi AGGA Cyf. ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, mae ei erthyglau a'i memorandwm cydweithio'n nodi y caiff unrhyw eiddo sy'n eiddo i'r elusen neu sy'n cael ei breinio ynddi ei drosglwyddo i elusen neu elusennau eraill ag amcanion tebyg.

Mae cyfran yr Amgueddfa o asedau net y Fenter ar y Cyd yn cynnwys:

	Cyfanswm Net y Symudiad mewn Cronfeydd		**Cyfran Net y Symudiad mewn Cronfeydd**	
	2007	2006	**2007**	2006
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Adnoddau i mewn o greu incwm	**0**	4,234	**0**	2,117
Incwm o fuddsoddi	**35**	38	**18**	19
Adnoddau eraill i mewn	**0**	12	**0**	6
Cyfanswm yr adnoddau i mewn	**35**	4,284	**18**	2,142
Costau creu incwm	**21**	8	**11**	4
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**260**	684	**130**	342
Adnoddau eraill a wariwyd	**276**	0	**138**	0
Costau llywodraethu	**9**	44	**5**	22
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	**566**	736	**284**	368
Newidiadau net mewn cronfeydd	**(531)**	3,548	**(266)**	1,774

	Cyfanswm yr Asedau a'r Rhwymedigaethau		**Cyfran yr Asedau 'r Rhwymedigaetha**	
	2007	2006	**2007**	2006
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Asedau sefydlog	**26,408**	26,158	**13,203**	13,079
Asedau cyfredol	**619**	1,811	**310**	906
Rhwymedigaethau cyn pen blwyddyn	**(210)**	(621)	**(104)**	(310)
Rhwymedigaethau mewn dros flwyddyn	**(49)**	(49)	**(25)**	(25)
Asedau Net	**26,768**	27,299	**13,384**	13,650
Cronfeydd				
Cronfa gyffredinol (digyfyngiad)	**26,408**	26,158	**13,203**	13,079
Cronfa gyfyngedig	**360**	1,141	**181**	571
	26,768	27,299	**13,384**	13,650

Ar 31 Mawrth 2007, roedd AGGA Cyf. wedi contractio ar gyfer £26,735 o wariant cyfalaf oedd heb ei dynnu i lawr ar y pryd.

9. Asedau diriaethol sefydlog

(a) Amgueddfa

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliad	Eiddo ar Brydles	Peiriannau a Cherbydau	Darnau Gosod ac Offer	Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**
Cost neu brisiad						
Ar 1 Ebrill 2006	15,165	54,776	105	513	1,158	**71,717**
Trosglwyddo	1,158	0	0	0	(1,158)	**0**
Ychwanegiadau	1,691	1,561	34	542	0	**3,828**
Adbrisiad	708	2,211	4	41	0	**2,964**
Ar 31 Mawrth 2007	**18,722**	**58,548**	**143**	**1,096**	**0**	**78,509**
Disbrisiant						
Ar 1 Ebrill 2006	0	0	29	0	0	**29**
Tâl am y flwyddyn	250	457	25	106	0	**838**
Adbrisiad	10	17	1	4	0	**32**
Ar 31 Mawrth 2007	**260**	**474**	**55**	**110**	**0**	**899**
Llyfrwerth net						
Ar 1 Ebrill 2006	15,165	54,776	76	513	1,158	71,688
Ar 31 Mawrth 2007	**18,462**	**58,074**	**88**	**986**	**0**	**77,610**

(b) Cyfunol

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliad	Eiddo ar Brydles	Peiriannau a Cherbydau	Darnau Gosod ac Offer	Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**
Cost neu brisiad						
Ar 1 Ebrill 2006	15,165	54,776	105	525	1,158	**71,729**
Trosglwyddo	1,158	0	0	0	(1,158)	**0**
Ychwanegiadau	1,691	1,561	34	562	0	**3,848**
Adbrisiad	708	2,211	4	41	0	**2,964**
Ar 31 Mawrth 2007	**18,722**	**58,548**	**143**	**1,128**	**0**	**78,541**
Disbrisiant						
Ar 1 Ebrill 2006	0	0	29	12	0	**41**
Tâl am y flwyddyn	250	457	25	108	0	**840**
Adbrisiad	10	17	1	4	0	**32**
Ar 31 Mawrth 2007	**260**	**474**	**55**	**124**	**0**	**913**
Llyfrwerth net						
Ar 1 Ebrill 2006	15,165	54,776	76	513	1,158	71,688
Ar 31 Mawrth 2007	**18,462**	**58,074**	**88**	**1,004**	**0**	**77,628**

Cafodd asedau sefydlog diriaethol yr Amgueddfa eu prisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2006 gan M. A. Lawley o'r Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright, yn unol ag anghenion Safonau Prisio ac FRS15 Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Roedd gwerth bob eiddo ar sail a rhagdybiaethau ar gyfer eiddo sy'n gartref i'r perchennog: yn cael eu prisio ar Bris Defnydd Cyfredol gan gymryd y rhagdybiaeth y byddai'r eiddo yn cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus neu drwy ddefnyddio'r dull cost dibrisiant.

Mae llyfrwerth net yr asedau sefydlog ar bapur, sef £77,628,000 yn cynnwys swm o £10,000 (Cyfanswm cost o £48,000 llai dibrisiant o £38,000) mewn perthynas â'r asedau ar brydles.

10. Asedau Treftadaeth

Mae'r Asedau Treftadaeth a drosglwyddwyd/gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Arfordir Asia Leiaf - Frederic, Arglwydd Leighton	15			**15**
Felicite Parmentier - Antony Eyton	5			**5**
Lt Col Thomas Peers Williams - George Hayter	6			**6**
Sur un table - Theodore Ribot	10			**10**
Pâr o ddysglau saws arian gan Ann Tanqueray	35			**35**
Plât pwdin wedi ei addurno gan Thomas Baxter	14			**14**
Cyfanswm yr ychwanegiadau yn ystod y flwyddy	**628**	**32**	**13**	**673**
Ar 1 Ebrill 2006	4,687	5,591	707	10,985
Ar 31 Mawrth 2007	**5,315**	**5,623**	**720**	**11,658**

11. Buddsoddiadau mewn asedau sefydlog

	Amgueddfa		**Cyfunol**	
	2006-07	2005-06	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Ar 1 Ebrill 2006	**2,055**	1,769	**2,055**	1,769
Ychwanegiadau at fuddsoddiadau ar sail cos	**79**	637	**79**	637
Gwarediadau am bris y farchnad	**(84)**	(639)	**(84)**	(639)
Enillion net ar adbrisiadau	**83**	288	**83**	288
Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth 2007	**2,133**	2,055	**2,133**	2,055

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2006 oedd £1,516,000 (£1,517,000 ar 31 Mawrth 2006). Mae'r portffolio'n cynnwys Buddsoddiadau Cyfunol (Unedau Buddsoddi) a awdurdodwyd gan y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddiadau (cafodd y rhain eu prisio yn broffesiynol gan reolwyr buddsoddiadau'r Amgueddfa, (Gerrard Cyf.) ac mae'r cyfranddaliadau (a gafodd yr Amgueddfa'n gymynrodd) wedi eu rhestru ar Farchnad Stoc Llundain.

12. Stoc

	Amgueddfa		**Cyfunol**	
	2007	2006	**2007**	2006
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Nwyddau'r siop i'w gwerthu	**0**	0	**358**	379
Stoc cyhoeddiadau a gedwir ar wahân	**137**	118	**137**	118
Llai'r ddarpariaeth ar gyfer dileu stoc	**0**	(12)	**0**	(12)
	137	106	**495**	485

13. Dyledwyr

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2007	2006	**2007**	2006
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Symiau i'w talu cyn pen blwyddyn:				
Dyledwyr masnachol	**76**	227	**225**	286
Swm sy'n ddyledus o'r is-gwmni masnachu	**252**	324	**0**	0
Benthyciad dyledus yr is-gwmni masnachu	**301**	321	**0**	0
Dyledwyr Eraill	**1,075**	1,743	**997**	1,743
Rhagdaliadau	**195**	176	**231**	197
	1,899	2,791	**1,453**	2,226
Symiau sy'n ddyledus mewn dros flwyddyn:				
Dyledwyr Eraill	**39**	71	**39**	71

Ymysg y Dyledwyr eraill mae balans o fewn y llywodraeth o: £77,000 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (£130,000 yn 2005/06); £244,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£799,000 yn 2005/06); £11,000 gan English Nature (Dim yn 2005/06); £550,000 gan Refeniw a Thollau ei Mawrhydi (£684,000 yn 2005/06), sydd oll yn cael eu diffinio fel cyrff y llywodraeth o ran Cyfrifon y Llywodraeth.

Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i ostyngiad yn y benthyciad sy'n ddyledus o'r is-gwmni masnachu mewn perthynas â hen stoc oedd eisoes wedi cael ei drosglwyddo trwy'r cytundeb benthyg.

14. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2007	2006	**2007**	2006
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Credydwyr masnachol	**475**	530	**508**	546
Credydwyr a chroniadau eraill	**591**	440	**616**	482
	1,066	970	**1,124**	1,028

Ymysg y Credydwyr a chroniadau eraill mae balans o fewn y llywodraeth o £48,000 (Dim yn 2005/06) gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

15. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn dros flwyddyn

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2007	2006	**2007**	2006
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Trefniadau Prydlesu	**42**	82	**42**	82

16. Costau pensiwn

Mae gan yr Amgueddfa gynllun buddion diffiniedig yn y DU, sydd wedi'i warantu gan Warant y Goron a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflawnwyd prisiad actwarïaidd llawn ar 31 Mawrth 2006. Cafodd ei ddiweddaru ar 31 Mawrth 2007 gan actwari annibynnol cymwys gan ddefnyddio canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi. Dyma'r rhagdybiaethau mwyaf a ddefnyddiodd yr actwari (yn nhermau enwol):

	2007	2006	2005
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	**4.6%**	4.4%	4.6%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau a ohiriwyd	**3.1%**	2.9%	3.1%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gweithredol	**3.1%**	2.9%	3.1%
Cyfradd y disgownt	**4.9%**	5.7%	6.6%
Rhagdybiaeth o ran chwyddiant	**3.1%**	2.9%	3.1%

Roedd y gwerthusiad actwarïaidd ar 31 Mawrth 2007 gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau uchod yn dangos cynnydd yn y diffyg, o £9,693,000 i £14,001,000. Bu'r Amgueddfa'n cyfrannu at y Cynllun yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2007 ar gyfradd o 21.3% o'r Tâl Pensiynadwy.

(a) Asedau'r cynllun a'r gyfradd elw ddisgwyliedig:

	2007		2006		2005	
		£'000		£'000		£'000
Soddgyfrannau	**6.90%**	**49,963**	6.50%	44,798	6.90%	34,402
Bondiau llog sefydlog	**4.65%**	**1,796**	4.25%	1,499	4.65%	1,248
Stociau'r Llywodraeth ar sail mynegai	**4.65%**	**14,066**	4.25%	12,022	4.65%	9,498
Arall	**4.65%**	**147**	4.00%	227	4.00%	552
Cyfanswm gwerth yr asedau ar y farchnad		**65,972**		58,546		45,700
Gwerth actwarïaidd y dyledion		**(79,973)**		(68,239)		(55,053)
Diffyg y gellir ei adfer yn y cynllun		**(14,001)**		(9,693)		(9,353)
Asedau/(rhwymedigaeth) trethi a ohiriwyd		**0**		0		0
Rhwymedigaethau pensiwn net		**(14,001)**		(9,693)		(9,353)

(b) Dadansoddiad o'r symiau y gellir eu codi ar gostau gweithredu:

	2007	2006
	£'000	£'000
Costau gwasanaeth cyfoes	**2,383**	1,950
Costau gwasanaeth yn y gorffennol	**0**	0
Cyfanswm y costau gweithredu	**2,383**	1,950

(c) Dadansoddiad o'r elw net ar y cynllun pensiwn:

	2007	2006
	£'000	£'000
Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn	**3,547**	2,947
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	**(3,941)**	(3,667)
Elw net	**(394)**	(720)

(d) Dadansoddiad o'r enillion a'r colledion actwarïaidd

	2007	2006
	£'000	£'000
Gwir elw llai'r elw disgwyliedig ar asedau	**2,486**	8,624
Hanes colledion ar y rhwymedigaethau	**(68)**	0
Newiadau yn y rhagdybiaethau	**(6,765)**	(8,910)
Colledion actwarïaidd	**(4,347)**	(286)
Addasiad yn sgil y cyfyngiad ar wargedau	**0**	0
Colledion net a gydnabuwyd	**(4,347)**	(286)

(e) Newidiadau yn y diffyg yn ystod y flwyddyn:

	2007	2006
	£'000	£'000
Diffyg y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	**(9,693)**	(9,353)
Newid yn ystod y flwyddyn:		
Costau gwasanaeth cyfoes	**(2,383)**	(1,950)
Cyfraniadau a dalwyd	**2,816**	2,616
Cost llog net	**(394)**	(720)
Colledion actwarïaidd	**(4,347)**	(286)
Diffyg y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	**(14,001)**	(9,693)

Mae'r ffigurau uchod wedi cael eu cynnwys yn y Gyfriflen o Weithgareddau Ariannol a'r Fantolen o dan Safon Adrodd Ariannol 17 – Budd-daliadau Ymddeol.

(f) Hanes o ran enillion a cholledion

	2007	2006	2005	2004	2003
Y gwahaniaeth rhwng yr elw disgwyliedig â'r gwir elw ar asedau'r cynllun:					
swm (£' 000)	**2,486**	8,624	1,901	5,147	(10,853)
y canran o asedau'r cynllun	**3.8%**	14.7%	4.2%	13.0%	34.4%
Hanes enillion/(colledion) ar rwymedigaethau'r cynllun:					
swm (£' 000)	**(68)**	0	0	2,683	(1,865)
y canran o rwymedigaethau'r cynllun	**0.1%**	0.0%	0.0%	4.8%	3.9%
Enillion/(colledion) actwariaidd:					
swm (£' 000)	**(4,347)**	(286)	6,494	1,110	(13,607)
y canran o rwymedigaethau'r cynllun	**5.4%**	0.0%	11.8%	2.0%	28.5%

17. Datganiad o gronfeydd

(a) Newidiadau yn y cronfeydd

	1 Ebrill 2006	Adnoddau i mewn	Adnoddau a wariwyd	Newidiadau eraill o fewn y flwyddyn	**31 Mawrth 2007**
	£000	£000	£000	£000	**£000**
Cronfeydd Cyhoeddus					
Cyfyngedig - Cyfalaf	89,284	3,282	(1,046)	2,618	**94,138**
Cyfyngedig - Sbesimenau	6,218	1,334	(628)	6	**6,930**
Cyfanswm cyfyngedig	95,502	4,616	(1,674)	2,624	**101,068**
Digyfyngiad	1,514	24,480	(24,608)	10	**1,396**
Cronfa bensiwn	(9,693)	0	39	(4,347)	**(14,001)**
Cyfanswm digyfyngiad	(8,179)	24,480	(24,569)	(4,337)	**(12,605)**
Cyfanswm cyhoeddus	**87,323**	**29,096**	**(26,243)**	**(1,713)**	**88,463**
Cronfeydd preifat					
Cyfyngedig	3,618	462	(397)	102	**3,785**
Digyfyngiad	339	127	(56)	13	**423**
Cyfanswm preifat	**3,957**	**589**	**(453)**	**115**	**4,208**
Cyfanswm	**91,280**	**29,685**	**(26,696)**	**(1,598)**	**92,671**

Cofnodwyd £1,328,000 o Gronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad yng nghyfrifon anghyfunol yr Amgueddfa ei hun ar 31 Mawrth 2007, gyda swm o £68,000 wedi'i briodoli i Fentrau AOCC Cyf.

Mae'r Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yn cynnwys dwy gronfa falans mawr sef: y Gronfa Gelf a Chronfa Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

(b) Dadansoddiad o'r asedau net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		
	Cyfyngedig	Digyfyngiad	Cyfyngedig	Digyfyngiad	**2007**
	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**
Asedau sefydlog	100,806	299	3,344	354	**104,803**
Asedau cyfredol	754	1,769	441	71	**3,035**
Rhwymedigaethau cyfredol	(480)	(642)	0	(2)	**(1,124)**
Rhwymedigaethau tymor hir	(12)	(30)	0	0	**(42)**
Asedau net (cyn y rhwymedigaethau pensiwn)	**101,068**	**1,396**	**3,785**	**423**	**106,672**
Rhwymedigaethau pensiwn	0	(14,001)	0	0	**(14,001)**
Asedau net (ar ôl y rhwymedigaethau pensiwn)	**101,068**	**(12,605)**	**3,785**	**423**	**92,671**

18. Cysoni'r newidiadau mewn adnoddau i'r llif arian net o weithgarwch gweithredu

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2006-07	2005-06	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Adnoddau net i mewn ar gyfer y flwyddyn	**2,714**	4,420	**2,723**	4,419
Cyfran o fenter ar y cyd	**266**	(1,774)	**266**	(1,774)
Asedau a gafwyd yn rhodd	**(105)**	(97)	**(105)**	(97)
Dibrisiant	**838**	1,307	**840**	1,311
(Cynnydd)/Lleihad mewn stociau	**(31)**	7	**(10)**	(54)
(Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr	**914**	(815)	**809**	(860)
(Cynnydd)/Lleihad mewn credydwyr	**(192)**	253	**(206)**	310
Costau ariannu pensiynau	**(39)**	54	**(39)**	54
Arian net i mewn o weithgarwch gweithre	**4,365**	3,355	**4,278**	3,309

19. Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2006-07	2005-06	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol	**(4,133)**	(3,262)	**(4,153)**	(3,262)

20. Newidiadau mewn arian parod

	Amgeuddfa		Cyfunol	
	2006-07	2005-06	**2006-07**	2005-06
	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Arian parod net ar 1 Ebrill 2006	**620**	527	**923**	876
Llif arian parod net i mewn	**232**	93	**125**	47
Arian parod net ar 31 Mawrth 2007	**852**	620	**1,048**	923

21. Rhwymedigaethau cyfalaf

	2006-07	2005-06
	£'000	£'000
Ar ddyddiad llunio'r fantolen, roedd ymrwymiadau cyfalaf o	**2,405**	1,876

Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cyfeirio'n bennaf at y gwaith cyfalaf mawr: yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (gwaith ar y to) ac yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru (gwaith ar y project gofal a mynediad at gasgliadau).

22. Asedau ar brydles

	Peiriannau a Cherbydau	Celfi, Gosodiadau ac Offer	**2006-07**	2005-06
Taliadau dyledus ar asedau ar brydles:	£'000	£'000	**£'000**	£'000
Prydlesau fydd yn dod i ben cyn pen blwyddyn	10	38	**48**	45
Prydlesau fydd yn dod i ben cyn pen 2 i 5 mlynedd	2	40	**42**	82
	12	78	**90**	127

23. Rhwymedigaethau wrth gefn

Pe bai Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn cau, mae rhwymedigaethau wrth gefn i ddiogelu siafft y pwll a'r ardaloedd cyfagos. Mae dadgomisiynu yn debygol o gostio rhyw £1 miliwn ac mae'r swm wedi ei warantu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trwy ei chyfreithwyr, mae'r Amgueddfa yn cynnal trafodaethau mewn perthynas â nifer o hawliadau am anafiadau personol ar safleoedd yr Amgueddfa. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Amgueddfa setlo os bydd canlyniadau unrhyw drafodaethau neu ymgyfreithiad yn erbyn yr Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa o'r farn mai £18,500 yw'r tâl mwyaf posibl a allai godi yn erbyn yr hawliadau hyn.

24. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Felly, ystyrir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa gyllid oddi wrth y Cynulliad ar ffurf Cymhorthdal Refeniw, Cyfalaf a Grant Prynu Sbesimenau, y cyfeirir ato yn Nodyn 3.

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa drafodion materol amrywiol mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth gyda chyrff eraill sy'n cael eu noddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn 2006/07, cafodd yr Amgueddfa drafodion materol gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf. (AGGA Cyf.), cwmni y mae'r Amgueddfa yn bartner cyfartal ynddo gyda Dinas a Sir Abertawe. Cafodd yr Amgueddfa ad-daliad cost o £59,555 oddi wrth AGGA Cyf. Cafodd yr Amgueddfa incwm drwy weithgareddau codi arian, a throsglwyddodd swm o £5,000 i AGGA Cyf. Nid oedd unrhyw fantolenni dyled a chredyd gydag AGGA Cyf. ar 31 Mawrth 2007 (balans dyledwyr o £22,981 ar 31 Mawrth 2006).

Mae Mr Paul E. Loveluck, y Llywydd, yn un o saith Cyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe Cyf. y cyfeirir ato yn Nodyn 8 o'r Cyfrifon. Bu Mr Mathew Prichard, y Cyn-lywydd Diwethaf a Mr G. Wyn Howells, y Trysorydd, yn Gyfarwyddwyr y cwmni hefyd tan 25 Mehefin 2007. Penodwyd Mr Gareth Williams a Mr J. Peter W. Morgan, sydd hefyd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa, i gymryd eu lle. Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn cael tâl gan y cwmni.

Talodd yr Amgueddfa £29,980 i Geldards LLP yn 2006/07 (£19,650 yn 2005/06). Mae'r Ymddiriedolwr Mr H. R. C. Williams yn aelod o'r LLP.

Talodd yr Amgueddfa £5,000 i Heritage in Action (HERIAN) Cyf. yn 2006/07. Mae Mr John Williams-Davies, Cyfarwyddwr Gweithredu yr Amgueddfeydd, yn un o Gyfarwyddwyr HERIAN. Ni chafodd unrhyw dâl oddi wrth y cwmni hwn.

Cafodd yr Amgueddfa rodd o £9,000 oddi wrth Ymddiriedolaeth Colwinston yn 2006/07. Mae Mr M. Prichard, y Cyn-lywydd Diwethaf, yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Colwinston.

25. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifo'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 3 Awst 2007.